# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 25 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Arian y Loteri

**C11 Gwenda Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog yn eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am arian y loteri yng Nghymru? (OAQ18473)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am arian y loteri. Mae hi'n cwrdd yn rheolaidd â Don Touhig, Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i drafod materion cyfoes. Lle bo'n briodol, mae'r trafodaethau hynny'n cynnwys materion sy'n ymwneud ag arian y loteri yng Nghymru.

### Cynaliadwyedd yr Ardoll Agregau

**C12 Gareth Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddosbarthu cronfa gynaliadwyedd yr ardoll agregau yng Nghymru? (OAQ18483)

**Prif Weinidog Cymru:** Caiff y gronfa gynaliadwyedd ei gyflwyno ar 26 Mehefin, a bydd yn cael ei dosbarthu drwy'r ardaloedd yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan gloddio cerrig mân. Gweinyddir y gronfa gan banel ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Gymdeithas Cynhyrchion Chwareli. Bydd y panel ymgynghori hefyd yn cyfarfod ar 26 Mehefin.

### Safonau Addysg

**C13 Nick Bourne:** Sut y mae polisïau llywodraeth y Prif Weinidog wedi bod o fudd i safonau addysg yng Nghymru? (OAQ18490)

**Prif Weinidog Cymru:** Ein nod yw y bydd gan Gymru un o'r systemau hyfforddi ac addysg gorau yn y byd. Disgrifir ein llwyddiannau'n eglur yn 'Cynllun i Gymru 2001' ac 'Y Wlad sy'n Dysgu'. Mae casgliad adroddiad diweddaraf Prif Arolygwr Ysgolion yng Nghymru, sef bod safonau addysg a hyfforddi wedi gwella unwaith eto, yn cadarnhau ein bod ar y trywydd iawn i wireddu ein huchelgais i Gymru fod yn fawr ei bri yn y byd fel gwlad ddysg.

### Plismona Cymunedol

**C14 Christine Chapman:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan am blismona cymunedol yng Nghymru? (OAQ18488)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw lleihau troseddu yn codi mewn trafodaethau â'n cydweithwyr yn San Steffan yn aml iawn, a hynny oherwydd nad yw'n fater datganoledig. Mae'n sicr bod y mwyafrif yn gyffredinol o blaid plismona cymunedol. Yn ogystal â bod yn effeithiol o ran plismona gweithredol, mae heddweision cymunedol a benodir i rawd hefyd yn rhoi hyder i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac yn golygu bod pobl â llai o ofn troseddu. Caf ar ddeall bod gan Adran B Heddlu De Cymru, sy'n gwasanaethu yng nghwm Cynon, heddweision cymunedol a benodir i rawd ym mhob un o'r 52 wardiau. Croesawaf hynny a'r cyfraniad hanfodol y mae'r heddlu yn ei wneud i'r partneriaethau lleol i leihau troseddau ac anhrefn, sy'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru.

**Swyddi mewn Ardaloedd Cymdeithasol Ddifreintiedig**

**C15 Janet Davies:** Pa gamau y mae’r Prif Weinidog yn eu cymryd i gydlynu datblygiad polisi yn y Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn cyfrannu at greu swyddi newydd yn yr ardaloedd mwyaf cymdeithasol ddifreintiedig yng Nghymru? (OAQ18476)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a minnau wedi rhoi disgrifiad o strategaeth datblygu economaidd eglur yn ‘Cymru sy’n Ennill’. Mae hynny’n rhoi fframwaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Tîm Cymru  a busnesau yng Nghymru sy’n ymwneud ag ardaloedd sy’n gymdeithasol ddifreintiedig.